



## Eglwys Edern (SH 27953959)

**Cyfarwyddiadau: Dilynwch B4417 (Tudweiliog – Morfa Nefyn) ac yng ngwaelod y pentref trowch tua'r de (arwydd: 'Plas y Goedlan') a theithio 300m. Mae'r eglwys i'w gweld ar Lôn Pwll Clai.**

Yn ystod hanner cyntaf y 19egG Tŷ Coch, sydd heddiw'n dafarn ar draeth Porthdinllaen oedd ficerdy plwyf Edern. Yna codwyd ficerdy newydd lle mae gwesty 'Woodlands Hall' heddiw.

Sant Edern sefydlodd y gell yn yr ardal ac mae eglwysi sy'n cynnwys ei enw yn Bodedern, Ynys Môn ac yn Plouédern, Llydaw. Roedd yn fab i Cunedda ac yn un o'r llu myneich ddilynodd Beuno i Lŷn.

Yn ôl Prisiad Norwich roedd eglwys yma yn 1254 – *Ecclesia Edern.*

Cafodd eglwys Edernei chodi yn 1867/8 efo cerrig lleol am bris o £1,200 ar sylfaen adeilad canoloesol ond mae rhai o goed y to'n dyddio o'r 15edG. Ar ffurf croes gan bensaer o'r enw Coad o Lundain y cafodd ei chynllunio.

Ymwelodd Hyde-Hall ag Edern yn 1809-11 ac wrth drafod yr eglwys rhoddodd sylw mawr i deulu'r tirfeddianwyr lleol o Gefnamwlch, Tudweiliog sydd wedi'u claddu yn y fynwent.

Yn y fynwent hefyd mae carreg i goffâu'r morwyr foddodd yn nhrychineb y 'Cyprian' yn 1881.

Mae penglog ac esgyrn ar garreg arall yn awgrymu cysylltiad â môrladron. Ond roedd hi'n arferiad addurno cerrig beddau fel hyn yn y 18fedG.

Mae tystiolaeth fod plasyd gan Esgob Bangor yn Edern er na wyddom ei leoliad. Mae'n debygol ei fod yn agos i'r eglwys.



## Llwybr y Pererin (Gogledd)



Byddai'r pererinion cynnar yn casglu yng Nghlynnog Fawr (SH 41464970), i baratoi at gyfer y daith flinedig dros yr Eifl i Aberdaron cyn croesi'r Swnt i Ynys Enlli.

Beuno sefydlodd Eglwys Clynnog. Roedd yn sant a ddylanwadodd yn fawr ar Gristnogaeth gynnar yng ngogledd-orllewin Cymru. Roedd ganddo lu o ddilynwyr ac un o'r rhain oedd Aelhaearn a sefydlodd Eglwys Llanaelhaearn. Rhaid oedd galw yno a thorri syched yn Ffynnon Aelhaearn cyn dringo i Fwlch yr Eifl ac i lawr at Eglwys Pistyll.

Dewis arall fyddai dilyn godre Moel Carnguwch ac ymweld ag Eglwys Carnguwch, un arall o lannau Beuno.

Cyn disgyn i lawr o Fwlch yr Eifl câi'r pererinion gyfle am seibiant ar Eisteddfa – cae ar dir Fferm Pisyll. Doedd dim rhaid i'r fferm honno dalu degwm gan eu bod yn cynnig lloches i'r teithwyr blin.

Beuno sefydlodd Eglwys Pistyll hefyd, a gellwch ddal i deimlo naws y canrifoedd cynnar yn yr eglwys heddiw.

Ar yr allt wrth adael yr eglwys i gyfeiriad Nefyn mae carreg â chroes arni. Efallai mai safle i weddio ydoedd neu bod y garreg yn syml yn dangos y ffordd i'r pererinion ar eu taith.

Yn Llanfair yn Nefyn yn y Canol Oesoedd roedd mynachlog, lle treuliodd Gerallt Gymro a'r Esgob Baldwin nos Sul y Blodau yn 1188. Yma mae Stryd y Mynach ac mae Amgueddfa Forwrol Nefyn yn yr hen eglwys. Y Santes Nefyn a gâi ei choffâu yn wreiddiol yma ond dan ddylanwad Cwlt Mair cafodd ei sancteiddio i Fair. Yn Stryd y Ffynnon mae Ffynnon Fair rhwng dwy eglwys Nefyn.

O Nefyn i Aberdaron roedd y pererinion yn gallu dilyn yr arfordir. Byddent yn mynd heibio Eglwys Tudweiliog a Ffynnon Cwyfan ac yna ymlaen i Eglwys Llangwnadl. Wedyn trwy blwyf Bodferin, lle mae safle Eglwys Bodferin, ac ymlaen i Aberdaron.

Gallent hefyd fynd heibio Ffynnon Gybi Bach wrth odre Garn Boduan, mynd i gyfeiriad Garn Fadrun ac ymweld ag Eglwys Llandudwen a'i ffynnon rinweddol. Yna mynd heibio Eglwys Bryncroes (Linc: Eglwys Bryncroes) a ffynnon Fair ac ymlaen i Aberdaron ac Eglwys Sant Hywyn.

## Pererindota yn Llŷn



Nid y man cychwyn ond profiadau'r daith a phen y siwrnai sy'n bwysig i'r pererin.

Roedd pererindota yn bod cyn y cyfnod Cristnogol a gallwn ddyfalu y byddai pobl yn talu gwrogaeth i bennaethiaid a gladdwyd mewn cromlechi, carneddi ac o bosib o dan feini hirion. Byddent yn ymweld ar adegau penodol o'r flwyddyn, yn arbennig ar hirdydd haf a symudiad arwyddocaol cytser.

Roedd arbenigrwydd meddyginiaethol neu ddawn broffwydol yn perthyn i ddŵr ffynhonnau neilltuol, a chred neu ofergoel yn peri i'r safle ddatblygu sancteiddrwydd.

O dipyn i beth fel y lledaenodd Cristnogaeth mabwysiadodd y Cristnogion cynnar arferion a thraddodiadau'r gymuned baganaidd.

Roedd ofergoel, chwedl, ofn a diniweidrwydd yn rheoli, ac ansicrwydd a breuder bywyd yn ddychryn. Credent mai cosb am bechod oedd salwch ac anabledd.

Ond daeth yr offeiriaid Cristnogol, y 'seintiau cynnar' i'w plith a chynnig gobaith. Wrth ymweld â mannau penodol ac yfed dŵr y ffynnon sanctaidd daethant i gredu y caent wella'u hafiechydon a maddeuant am eu pechodau. Os cosbent eu hunain yn ystod y daith a derbyn penyd gan offeiriad byddai hynny'n hyrwyddo'r adferiad.

Roedd yn haws cael trefn ar eu bywydau wrth dorri cysylltiad â'u cymdeithas a neilltuo am gyfnod i weddio.



Dyna oedd atyniad yr ynys ar y gorwel welodd Cadfan o'i gell yn Nhywyn, Meirionnydd a llwyddo i berswadio'i ddilynwyr i encilio i Ynys Enlli. Buont yn cenhadu ar eu taith a sefydlu llannau yma ac acw, yn amlach na pheidio o fewn cyrraedd ffynhonnau.

Datblygodd clas fynachaidd ar lethrau Mynydd Anelog a buan y daeth pendraw Llŷn yn dynfa i offeiriad ac y datblygodd sancteiddrwydd Ynys Enlli.

Lledaenodd dylanwad dilynwyr Cadfan y tu allan i Lŷn a daeth Beuno a'i ddilynwyr yntau a dylanwadu'n drwm ar gymunedau Llŷn.

Mae'r eglwysi a'u saint, y ffynhonnau sanctaidd ac olion Cristnogaeth gynnar welir yn Llŷn heddiw yn tystio fod y pererinion yma yn y canrifoedd cynnar a'u hanes yn parhau i gyfoethogi'r ardal.

## Atyniadau'r Pererinion



Wrth ddod i lawr o lethrau'r Eifl i gyfeiriad Nefyn gwelai'r pererinion fryniau Llyn yn ymestyn o'u blaenau. Roedd llwybrau'r pererinion yn arwain i ardal Aberdaron trwy Anelog ac Uwchmynydd o'r gogledd o gyfeiriad Clynnog Fawr. Byddent yn cymryd seibiant ym mhen draw Llŷn cyn croesi'r Swnt peryglus i Ynys Enlli ac yn amlach na pheidio yn aros am dywydd ffafriol i hwyllo. Ond byddai digon o atyniadau yn yr ardal i ddyfnhau eu profiadau ysbrydol cyn cyrraedd Enlli. Câi Ynys Enlli ei hystyried yn Rhufain Cymru ac roedd tri ymweliad ag Enlli'n gyfystyr ag un ymweliad â Rhufain.

Roedd y pererinion cynharaf wedi darganfod llecyn arbennig i encilio iddo ar lethrau mynydd Anelog a sefydon nhw glàs yno. Dyma, mae'n debyg, leoliad Capel Anelog (SH 15592745) un o gapeli coll cynnar Llŷn. Yno cafodd Cerrig Anelog eu darganfod sy'n dystiolaeth fod Cristnogion yn yr ardal yn y 5/6edG. Ar un ohonynt caiff Senacus, yr offeiriad, a llu o'i gyfeillion eu coffáu ac efallai fod amryw o'r pererinion bregus a fethodd gwblhau'r daith i Enlli yn eu plith.

O gyfeiriad mynydd Anelog llifa afon Saint i Aberdaron. Byddai cyfle i yfed o ddŵr meddyginiaethol Ffynnon Saint (SH 16542671) a myfyrio wrth Allor Hywyn. Hon ydi'r garreg fawr wastad ger y ffynnon a gafodd ei chwalu wrth godi'r bont gerllaw.

Rhaid fyddai ymweld â Ffynnon Fair (SH 13952519) ar fin Swnt Enlli yn Uwchmynydd. Yno byddent yn craffu am olion carnau ceffyl Mair ac olion ei bysedd yn y creigiau cyn yfed o'i dŵr sanctaidd cyn dringo'n ôl i fyny Grisiau Mair.

Ar y gwastad rhwng mynydd Mawr a Mynydd Gwyddel roedd Capel Mair (SH 13922534) ac yno câi cyrff y meirw eu cadw wrth ddisgwyl am dywydd ffafriol i groesi i'w claddu yn Enlli.

Roedd llety i'w gael yn y Gegin Fawr yn Aberdaron neu yn Cwrt, Uwchmynydd – fferm oedd yn osgoi talu'r degwm am ei bod yn lletya pererinion.

Ar dywydd teg byddai cychod yn aros amdanynt ym Mhorth Meudwy (SH 16302552). Mae'r enw hwn a Bodermud gerllaw yn cyfeirio at feudwyaeth y pererin.

## Eglwys Morfa Nefyn (SH 288401)



### *Cyfarwyddiadau: Dilynwch B4412 (Morfa Nefyn – Bryncynan) yn y pentref a throi i Lôn yr Eglwys.*

Eglwys genhadol oedd yr eglwys a gafodd ei hadeiladu ym mhentref newydd Morfa Nefyn yn 1871. Roedd y pentref yn tyfu, y ffyrdd yn hwylus a'r ardal wedi manteisio ar y datblygiadau ddaeth yn sgil y cynlluniau i ddatblygu Porthdinllaen.

Mae wedi'i hadeiladu o wenithfaen lleol ac mae ffenestr liw ynddi. Llechi glas a llwyd bob yn ail res, sydd ar ei tho, patrwm digon anarferol.

Y drws nesaf iddi mae Eglwys Babyddol Atgyfodiad Ein Prynwr.



### Eglwys Llandudwen (SH 27403684)



**Cyfarwyddiadau:** *Dilynwch y ffordd di-ddosbarth Tudweiliog – Rhydyclafdy. (4.4m o Dudweiliog a 6.9 km o Rydyclafdy). Ger fferm Cefn Madryn bydd angen mynd i'r gogledd am 500m.*

Cysegrodd Santes Tudwen gell yma. Un o nifer fawr o ferched Brychan Brycheiniog, yn y 5edG oedd hi a Nyfain, nawddsant Nefyn, yn chwaer iddi. Cafodd yr eglwys bresennol ei chodi ar safle gynharach mewn cyfnodau gwahanol yn ystod yr 17egG. Y transept deheuol yw'r hynaf.

Pan ymwelodd Hyde-Hall â hi yn 1809-11 roedd mewn cyflwr truenus. Roedd rhan o'r to wedi disgyn, gwydr wedi'i golli o'r ffenestri a phob math o adar yn clwydo ynddi. Ond roedd ei chyflwr hi a'r fynwent wedi gwella'n arw erbyn dechrau'r 20edG.

Mae ynddi gwpan cymun yn dyddio o 1500 â cherflun o Grist arno.

#### **Ffynnon Dudwen (SH 27453680)**

Mae'r ffynnon led cae o'r eglwys wedi'i hadfer a'i hailsancteiddio'n ddiweddar.

Roedd yn ffynnon bwysig yn yr ardal.

Byddent yn taflu pinnau ac arian i mewn iddi a gofyn am fendith Santes Tudwen gan gan mai hi fyddai'n rheoli llif a natur y dŵr. Roedd iddi nerth meddyginiaethol amlwg at wella anhwylderau'r llygad, y dwymyn ddspeidiol, crudcymalau, gwendid y gewynnau, gwasgfa a llewygu. Byddent hefyd yn defnyddio'r dŵr i fedyddio yn yr eglwys.

Roedd yma bentref o dai to gwellt gerllaw ond aethant ar dân rai canrifoedd yn ôl.

Wrth y fynedfa i'r fynwent mae Carreg Farch a gâi ei defnyddio fel 'carreg dystiolaeth'. Byddai plwyfolion yn dod yno i ddartys unrhyw ddatl oedd i'w thorri. Câi ei defnyddio hefyd fel carreg farch.

### Eglwys Llaniestyn (SH 26973377)



**Cyfarwyddiadau:** *Yng nghanol pentref Llaniestyn. Dilyn arwyddion 'Llaniestyn' o B4417 (Nefyn – Aberdaron), B4415 (Efailnewydd – Nanhoron,) B4413 (Llanbedrog – Aberdaron)*

Nawddsant yr eglwys yw Iestyn, un o ddilynwyr Cybi. Sefydlodd eglwys yn Llaniestyn, Môn a chredir iddo genhadu yng Nghernyw.

Mae rhan hynaf yr adeilad, corff yr eglwys, yn dyddio o'n gynnar yn 13egG. Y pen gorllewinol yw'r hynaf. 'Roedd yn eglwys o gryn bwysigrwydd yr adeg hynny. Codwyd yr ystlys ddeheuol yn y 15eg neu'n gynnar yn 16egG ac mae'r fedyddfaen o'r un cyfnod.

Ceir gefel gŵn yma a ddefnyddid i fynd a chŵn afreolus allan o'r gwasanaethau.

Enwir nifer o ffynhonnau ym mhlwyf Llaniestyn, fel Fynnon Odo, Ffynnon y Filiast a Phistyll y Garn. Yr un arbennig ydi Ffynnon y Brenin (SH 27903530) sy'n agos iawn i gopa Garn Fadryn.

'Roedd hon yn werthfawr iawn i drigolion y gaer yn Oes yr Haearn ac yn llawer diweddarach defnyddid ei dŵr i drin y llygad a deuai merched yma i drin eu hanwylderau.

Heb fod ymhell mae Bwrdd y Brenin – carreg fawr wastad a chysylltir hon a'r ffynnon â'r Brenin Arthur.



### Eglwys Mellteyrn, Sarn Mellteyrn (SH 23743285)



**Cyfarwyddiadau:** *Dilynwch B4413 (Sarn Mellteyrn – Rhoshirwaun) a throi am Dudweiliog. Mae'r eglwys ar y dde ymhen 200m.*

Mae cyfeiriad at y dreiflan, Sarn Mellteyrn yn 1352 fel 'Melteren, sef enw personol. Yma roedd y sarn i groesi'r afon Soch.

Ymwelodd Hyde-Hall yn 1801 a chyfeiria at adeilad yr eglwys fel un bychan syml a chroes hynafol ger y drws gorllewinol. Dywed fod yn y fynwent goeden ac o dan hon y cafodd adeiladwr neu sylfaenydd yr eglwys ei gladdu.


Henry Kennedy gynlluniodd yr eglwys a chafodd ei chodi yn 1846 a'i sancteiddio i Sant Pedr Mewn Cadwynau, sy'n anghyffredin iawn.

Yn niwedd 1980au oherwydd fod gwaith gwario arni a'r gynulleidfa'n edwino, cafodd yr eglwys ei dymchwel. Erbyn hyn mae'n adfail dderbyniol ac mae'r gloch i'w gweld yn Neuadd Sarn.

Yn ymyl yn fferm Mellteyrn y cafodd Henry Rowland a ddaeth yn Esgob Bangor ei eni. Bu farw yn 1616 gan adael arian i sefydlu Ysgol Botwnnog.

Yn y fynwent mae maen hir i'w gweld.

### Eglwys Tudweiliog (SH 23833678)



**Cyfarwyddiadau:** *Dilynwch ffordd B4417 (Aberdaron – Edern). Mae'r eglwys yn amlwg yng nghanol y pentref ar y ffordd i Dinas.*

Cwyfan, un o ddisgyblion Beuno yw nawddsant eglwys Tudweiliog yn ogystal â Llangwyfan, Dinbych a Llangwyfan, Ynys Môn.

Mae perthynas yma hefyd, yn ôl y sôn, â Tudwal, a sefydlodd y fynachlog yn y 6edG ar Ynys Tudwal. Hyn sy'n egluro tarddiad yr enw Tudweiliog, sef 'tir Tudwal'.

Er cysylltiadau'r plwyf â Ffordd y Pererinion nid oes tystiolaeth bellach o hynny.

Cyn i Dudweiliog fodoli, mae sôn bod cymuned yn Rhoslan unwaith, heb fod ymhell o'r pentref, ac eglwys ar dir Tywyn.

Ond mae cyfeiriad at eglwys yn Nhudweiliog ym Mhrisiant Norwich yn 1254.

Roedd yr eglwys gynharach ychydig i'r gogledd o'r un bresennol. Cafodd yr un bresennol ei chynllunio gan Syr Gilbert Scott a'i hadeiladu â charreg leol yn 1849. Mae'r gangell wedi'i gwahanu oddi wrth gorff yr eglwys.

Derbyniodd yr eglwys nawdd sylweddol dros y blynyddoedd gan deulu Wynne-Finch o stad Cefnamwlch.



Ger afon Amwlch, ar y ffin rhwng plwyfi Tudweiliog a Phenllech, rhwng ffordd yr arfordir a'r môr mae Ffynnon Gwyfan (SH 22833738) wedi'i herydu o'r graig. Roedd gwerth meddyginiaethol i'w dŵr at wella cryndod, defaid ar groen ac anhwylderau'r llygaid. Câi pinnau eu hoffrymu ynddi.

## Ffynhonnau Sanctaidd Llŷn



*Ffynnon Gwyfan, Tudweiliog*

Mae nifer helaeth o'r ffynhonnau yn Llŷn wedi'u lleoli ar Lwybrau Pererinion Enlli sy'n arwain i ben daw Llŷn. Credent yn eu gallu meddyginiaethol a hawdd dychmygu'r pererinion yn llusgo'n flinderus yn eu gwendid tuag atynt. Gwyddom am rai o'r ffynhonnau ond aeth cyfrinachau'r lleill ar ddifancoll ers canrifoedd.

Roedd y ffynhonnau'n bodoli cyn dyfod Cristnogaeth a chyn sefydlu eglwysi mwyaf hynafol Llŷn. Maent yn dangos ble'r oedd safleoedd sanctaidd ein cyndadau paganaidd ac yn tystio i greddoau a gweithgareddau Canoloesol.

Roedd cred ein cyndadau yng ngalluoedd dŵr y ffynhonnau wedi ei wau yn dynn i'w credoau crefyddol. Ond bellach, o ganlyniad i ddylanwad Piwritaniaeth, ofergoedd yw hyn. Mewn llythyr anfonodd Ieuan Llŷn at Dafydd Ddu Eryri yn 1796 mae'n sôn am Ffynnon Fair, Uwchmynydd a bod ôl carn ceffyl yn y graig. Dyma 'Geffyl Mair' a chyfeiria Ieuan Llŷn at hyn fel un o 'weddillion Pabyddiaeth'.

Roedd defod a seremoni wrth yfed neu ymolchi yn y dŵr yn hanfodol fel yn Ffynnon Gybi a Ffynnon Beuno. Mae meddygon yn deall pam bod Meddyges Bryn Canaid yn Uwchmynydd yn defnyddio dŵr Ffynnon Saint a'r berw dŵr a dyfai ynddi i wella iseldr ysbryd.

Roedd cryn bwysigrwydd i ffynhonnau mewn diwylliannau a gwareiddiad byd eang. Y gred oedd bod duwiau yn byw mewn ffynhonnau a llynnoedd a chaent hwy eu haddoli

yn ogystal ag afonydd. O ganlyniad roeddent yn gyrchfan offrymu, yn fannau cynnal seremonïau a'r dŵr yn aml yn feddyginiaethol. 'Duwies Fawr' a 'Duwies Fach' oedd afonydd Dwyfor a Dwyfach.

Mae amrywiaeth ddifyr iawn ymhlith ffynhonnau Llŷn – yn eu henwau, eu natur a'u nodweddion.

## Ffynhonnau Sanctaidd Llŷn



Mae nifer o ffynhonnau sanctaidd / meddyginiaethol yn yr ardal hon a chanddynt gysylltiadau â'r pererinion a'u llwybrau.

### Ffynnon Dudwen, Llandudwen (SH 27403686)

**Cyfarwyddiadau: Dilynwch y ffordd gul Tudweiliog – Rhydyclafdy. (4.4km o Dudweiliog a 6.9km o Rydyclafdy). Ger fferm Cefn Madryn bydd angen mynd i'r gogledd am 400m a thrwy giât mochyn ar y dde.**

Mae'r ffynnon led cae o'r eglwys wedi'i hadfer a'i hail sancteiddio'n ddiweddar. Roedd yn ffynnon bwysig yn yr ardal.

Byddent yn taflu pinnau ac arian i mewn iddi a gofyn am fendith Santes Tudwen gan mai hi fyddai'n rheoli llif a natur y dŵr. Roedd iddi nerth meddyginiaethol amlwg at wella anhwylderau'r llygad, y dwymyn ddyspeidiol, crudcymalau, gwendid y gewynnau, gwasgfa a llewygu. Byddent hefyd yn defnyddio'r dŵr i fedyddio yn yr eglwys.



## Ffynnon Cwyfan, Tudweiliog (SH 22833738)

**Cyfarwyddiadau:** Trowch tua'r môr ar ffordd gul yr arfordir oddi ar B4417 (Nefyn – Aberdaron) tua 1km i'r de o Dudweiliog. Ymlaen yn y gyffordd nesaf, yna daliwch i'r chwith a heibio fferm Tywyn. Mae'r ffynnon i'r dde ar fin yr afon sy'n llifo tua'r môr ar dir fferm.

Mae ar y ffin rhwng plwyfi Tudweiliog a Phenllech, wedi'i herydu o'r graig. Roedd gwerth meddyginiaethol i'w dŵr at wella crynodod, defaid ar groen ac anhwylderau'r llygaid. Câi pinnau eu hoffrymu ynddi.

## Ffynnon y Brenin, Garn Fadryn (SH 279353)

**Cyfarwyddiadau:** I fynd ati ewch i bentref Garn Fadryn (SH27803452) a dilyn llwybr gydag ochr y capel i fyny Garn Fadryn. Mae ar y gwastad i'r gogledd o'r copa.

Ffynnon o gerrig a'i hwyneb wedi'i gau yn rhannol. Roedd hon yn werthfawr iawn i drigolion y gaer yn Oes yr Haearn ac yn llawer diweddarach câi'r dŵr ei ddefnyddio i drin y llygad a deuai merched yma i drin eu hanwylderau.

Heb fod ymhell mae Bwrdd y Brenin – carreg fawr wastad sydd wedi'i chysylltu â'r ffynnon a'r Brenin Arthur.

## Olion Cynnar Cristnogaeth



Carreg fedd gyda gwisg pererin arni (Ynys Enlli)

Ymledodd Cristnogaeth i Lŷn trwy genhadaeth y 'seintiau'. Nhw oedd y pererinion cenhadol a fyddai'n crwydro gan sefydlu llannau yma ac acw. Mae'r ffynhonnau sanctaidd a'r meini Cristnogol cynnar yn dystiolaeth o hynny.

Dydi pob carreg ddim yn coffáu Cristnogion ac roedd yn arferiad hefyd i droi safle yn un Cristnogol trwy roi arysgrif a chroes ar garreg o gyfnod cynharach. Mae Nash-Williams yn cyfeirio at y ddau ddsbarth hyn o'r cerrig.

Cerrig beddau yw'r Cerrig ag arysgrif arnynt yn coffáu offeiriaid neu wŷr o uchel dras gan amlaf. Yr iaith Lladin neu Ogam a gâi eu defnyddio a llwyddant i daflu cryn oleuni ar fywyd y cenedlaethau Cristnogol Cynnar. Ond does dim arysgrif Ogam yn Llŷn.

Yn Llŷn ceir nifer o gerrig o gyfnod cynnar Cristnogaeth.

- **Cerrig Alitorius a Melitus**, Eglwys Llanaelhaearn (SH 38704480)
- **Carreg Plas Bach**, Ynys Enlli (SH12072214)
- **Cerrig Anelog**, Eglwys Abedaron, (SH 17332637)
- **Cerrig Penprys**, Plas Glyn y Weddw, Llanbedrog (SH 329314)
- **Carreg Melus**, Eglwys Llangian (SH 29562894)
- **Carreg Llannor**, Eglwys Llannor (SH 35393727)

Mae enghreifftiau o gerrig â chroesau arnynt yn brin yn Llŷn. Mae'r rhain o'r 7fed i'r 9fedG pan oedd Cristnogaeth wedi ymledu led-led Cymru.

- **Carreg Groes**, Eglwys Llanaelhaearn (SH 38704480)
- **Carreg Groes**, Pistyll (SH 31974182)
- **Carreg Hendy**, Ynys Enlli (SH12072214)
- **Carreg Croes Goch**, Llangwnnadr (SH 20883324)



### Dilynwch y Stori...

Darganfyddwch fwy am fannau sanctaidd drwy ymweld ag Eglwys Llandudwen – Man cyfarfod poblogaidd i'r pererinion ar eu ffordd i Ynys Enlli a ffynnon sanctaidd gerllaw.